| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 6 Chwefror, 2020 |
| **Teitl** | Gorfodaeth Stryd |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Catrin Wager |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| **Pwrpas** | Adroddiad Cynydd |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Ar 13 o Rhagfyr, 2018 bu i'r Pwyllgor Craffu ofyn am adroddiad cynnydd ar yr isod:

- Defnydd camerâu gan staff morwrol
- Effaith newidiadau trefniadau ailgylchu
- Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella'r ddarpariaeth
- Ail ystyried lefelau staffio presennol yn yr uned gorfodaeth stryd
- Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd

**2. Cefndir a Diweddariad**

2.1 Isod fe weler ddiweddariad ar y pwyntiau a oedd dan ystyriaeth:

| Argymhelliad | Beth sydd wedi digwydd a phryd | Effaith y gweithredu |
|---|---|---|
| 1. Defnydd camerâu gan staff morwrol | Mae'r camerâu yma eisoes yn weithredol a'r Polisi Corfforaethol mewn lle. Wedi darparu camerâu/canllawiau i staff Morwrol (6 mewn nifer). | Mae'r camerâu nawr o dan reolaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig ac mae'r defnydd yn debygol o gynyddu yn ystod tymor 2020. |
| 2. Effaith newidiadau trefniadau ailgylchu | Mae'r drefn casgliadau ailgylchu yn sefydlog nawr ers nifer o flynyddoedd. Sut bynnag, mae'r Adran yn y broses o newid y drefn casglu o un shifft gwaith i drefn o weithio wythnos gwaith arferol. Mae hefyd gerbydau newydd wedi eu comisiynu er gwella ar y drefn. | Mae'r drefn newydd wedi bod yn gam positif iawn wrth weld yr un criw gwaith ar yr un gylchdaith sydd yn rhoi perchnogaeth iddynt. Mae'r cerbydau hefyd wedi gwella ar gwynion o ddeunyddiau yn colli o'r cerbydau wrth drafeilio. |

| | | |
|---|---|---|
| 3. Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella'r ddarpariaeth | Nid yw'r trafodaethau diweddar gydag Awdurdodau Gogledd Cymru wedi arwain at ddatrysiad rhanbarthol. Mae'r Cynghorau eraill wedi datblygu cynlluniau amrywiol. Mae hyn yn amlygu'r angen i ail-ymweld a'r ddarpariaeth yng Ngwynedd, i adolygu'r gwasanaeth presennol, y blaenoriaethau a chyfeiriad strategol. | Gwasanaeth wedi ail ddiffinio'r yn gyd-destun Ffordd Gwynedd. |
| 4. Ail ystyried lefelau staffio presennol yn yr uned gorfodaeth stryd | Ystyried lefelau staffio fel rhan o adolygiad ehangach (gweler 3). | Gwasanaeth wedi ail diffinio'r yn gyd-destun Ffordd Gwynedd. |
| 5. Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd | Trafodwyd yr argymhelliad hwn gyda'r Adran Amgylchedd gyda'r bwriad o gydweithio yn agosach efo staff Gorfodaeth Parcio. Oherwydd gwahaniaethau sylweddol yn y ddeddfwriaeth a methodoleg gweithredu nid yw'r opsiwn yma yn ddichonadwy ar hyn o bryd. | Dim effaith ar hyn o bryd. |

**3. Camau Nesaf**

3.1 Bydd yr Adran yn ail-ymweld a'r ddarpariaeth yng Ngwynedd ac mae cyfarfodydd wedi eu trefnu er mwyn cytuno ar sgop ac amserlen yr adolygiad.